

**CYNGOR TREF RHUTHUN  
RUTHIN TOWN COUNCIL**



Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd  
**nos Lun 11 o Ebrill 2022 am 7:30pm fel cyfarfod hybrid**  
**(sef yn yr Hen Lys ac ar Zoom).**

**YN BRESENNOL:** Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Anne Roberts, Stephen Beach, Heather Williams, Jim Bryan, Gavin Harris, Christine Ellis a Mike van der Eijk,.

Hefyd: Cyng Jabez Redfern Oakes, Siân Clark – Clerc y Dref a Marian Rees – Cyfieithydd.

Croesawodd y Cynghorydd Menna Jones bawb i'r cyfarfod.

**115. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Dim.

**116. DATGAN BUDDIANNAU**

Dim.

**117. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 7 o Fawrth 2022 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.

**118. MATERION YN CODI**

*Cofnod 112 Tref Taclus:* Mynychodd pedwar gwirfoddolwr bore Tref Taclus diweddaraf; Mynychodd 12/14 gwirfoddolwyr yn rheolaidd cyn cyfnod covid. Rhoddwyd ystyriaeth i sut y gellid ennyn mwy o ddi-ddordeb gydag awgrym o helpa drysor a allai apelio at deuluoedd a disgyblion ysgol. Adroddodd y Clerc bod cysylltiad wedi ei wneud gyda Jeff Brimble i roi sylw i'r ardal palmantog yn arwain at Gofeb Tom Pryce a'r ramp yn arwain i fyny at yr Hen Lys. Byddai ymchwil pellach yn cael ei wneud i geisio gorchudd gwrthlithro priodol ar gyfer yr arwyneb palmantog.

*Cofnod 105 Plannwyr Blodau:* Roedd y Cyng Menna Jones a'r Clerc wedi ymweld a Choleg Derwen yn ddiweddar i gyfarfod â'r sawl oedd wedi ennill y cytundeb ar gyfer darparu planhigion ar gyfer y basgedi crog y dref yn 2022.

*Cofnod 113 Llwybr ar hyd yr A525 – Rhuthun i Lanfair DC:* Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, roedd y Cynghorydd Gavin Harris wedi cytuno i fod yn gynrychiolydd Cyngor Tref Rhuthun ar y grŵp i edrych ar lwybrau amgen ee ar hyd yr hen lwybr rheilffordd.

**119 DIWRNODAU PARCIO A DDIM 2022**

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i ddyraniad y pum diwrnod parcio am ddim ym meysydd parcio Cyngor Sir Ddinbych yn y dref ar gyfer 2022 ac argymhellwyd bod y dyddiadau canlynol yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor Tref yn ei gyfarfod nesaf: Dydd Sadwrn 2 Gorffennaf 2022 (Gŵyl Rhuthun); Dydd Sadwrn 10 Medi 2022 (Drysau Agored), a dydd Sadwrn 3, 10 a 17 Rhagfyr 2022. **PENDERFYNWYD:** argymhell bod y Cyngor Tref yn penderfynu: Dydd Sadwrn 2 Gorffennaf 2022 (Gŵyl Rhuthun); Dydd Sadwrn 10 Medi 2022 (Drysau Agored), a dydd Sadwrn 3, 10 a 17 Rhagfyr

2022 fel diwrnodau parcio am ddim ym meysydd parcio Cyngor Sir Ddinbych yn y dref ar gyfer 2022.

### **120. TOCIO'R COED AR SGWÂR SAN PEDR**

Bu'r aelodau'n ystyried y cyngor a ddarparwyd gan Dr. Peter Spencer, Gwasanaethau Coed Cymru, ynghylch tocio'r coed ar Sgwâr San Pedr a derbyniwyd y dyfynbris o £350 ynghyd â TAW a ddarparwyd ar gyfer y gwaith.

**PENDERFYNWYD:** i dderbyn y cyngor a'r dyfynbris o £350 ynghyd a TAW gan Gwasanaethau Coed Cymru am docio'r coed ar Sgwar San Pedr.

### **121. PARCIO AR YSTÂD HAULFRYN**

Cynhaliwyd ymweliad safle ar 5 Ebrill 2022 rhwng y Cyng Beach, Roberts a Williams ynghyd â'r tri Chynghorwyr Sir Lleol a swyddogion perthnasol Cyngor Sir Ddinbych wrth garejys ar Ystad Haulfryn; mynychodd Clerc y Dref hefyd. Pwrpas y cyfarfod oedd i drafod pryderon trigolion ynglŷn â pharcio ac ystyried mesurau i liniaru'r broblem oedd yn cynnwys y posibilrwydd o newid y garejys presennol am faes parcio gan gynnwys y seilwaith ar gyfer pwyntiau gwefru trydan. Roedd Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych wedi cytuno i symud ymlaen ac i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion yn dilyn gwyliau'r Pasg.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r camau i'w cymryd gan Gyngor Sir Ddinbych i liniaru'r pryderon parcio ar Haulfryn ac i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

### **122. CAIS AM DRWYDDED: MEINCIAU CYHOEDDUS**

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad ar y broses o wneud cais am drwydded ar gyfer tair mainc gyhoeddus newydd yn y dref. Nid oedd y cais gwreiddiol, a wnaed ym mis Gorffennaf 2021, wedi'i brosesu gan y Cyngor Sir, felly fe'i ailgyflwynwyd i gynnwys y fainc goffa (fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor). Disgwylir ymateb gan y Cyngor Sir. Eglurwyd bod lleoliad y fainc ar Stryd y Ffynnon, y tu allan i adeilad yr NFU, yn bodloni'r rheoliadau lleoli. Mynegodd yr aelodau'r farn, gan fod rhai o'r meinciau o amgylch y dref mewn cyflwr gwael, bod angen rhoi sylw iddynt. Byddai gwaith i gwblhau'r adroddiad cyflwr a map o'r meinciau yn cael ei ail-afael a'i roi ar waith.

**PENDERFYNWYD:** bod gwaith yn cael ei wneud i atgyweirio'r meinciau ac y byddai'r adroddiad cyflwr a map o'r meinciau yn cael eu cwblhau.

### **123. CWNINGAR Y CASTELL**

Rhannodd y Clerc yr ymateb diweddaraaf gan Gyngor Sir Ddinbych gyda'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD:** bod y Clerc yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ofyn am ddatganiad cyhoeddus ffurfiol ar y sefyllfa bresennol.

### **124. STATWS RHUTHUN FEL TREF SY'N CROESAWU BYSIAU MOETHUS**

Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor, o ystyried bod Statws Rhuthun fel tref sy'n croesawu bysiau moethus, i'w adnewyddu wedi tair blynedd ar ddiwedd mis Ebrill 2022, y cysylltwyd â'r awdurdod dyfarnu ac y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar-lein o fewn yr wythnos. Mynegodd Cynghorwyr Tref y farn ei bod yn angenrheidiol creu man gollwng bysiau moethus y tu allan i'r Hen Lys.

**PENDERFYNWYD:** bod y Clerc yn diweddaru'r Aelodau ar ganlyniad y cyfarfod gyda'r awdurdod dyfarnu.

### **125. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** mai nos Fawrth 3 o Fai 2022 y cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 pm.